# LLWYBRAU TREFTADAETH


RHONDDA CYNON TAF

TAITH 2

# CWM CYNON



# TAITH 2 – CWM CYNON




## CRYNODEB

**Mae'r daith yma'n dechrau ym man olaf Taith 1 yn Abercynon, cyn mynd i fyny Cwm Cynon a mannau o amgylch Aberdâr. Mae croeso i chi ddewis dilyn Taith Gerdded Aberdâr a / neu ymweld ag Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon. Ar ôl hynny, mae'r daith yn mynd ymlaen i fannau diddorol eraill cyn dod i ben yn Hirwaun, ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

- (1) Navigation House a Chofeb Trevithick
  Abercynon CF45 4RR
- (2) Cerflun Guto Nyth Brân (dewisol)
  Maes parcio Oxford Street, Aberpennar CF45 3HD
- (3A) Taith ddewisol 1:
  Aber-nant y Groes, Cwm-bach CF44 0LW
- (3B) Dr Teddy Morgan, Aber-nant CF44 0SW
- (3C) Taith ddewisol 2:
  Arthur Linton, Aberaman CF44 6RG
- (4) Taith Gerdded Aberdâr a'r Amgueddfa (dewisol)
  Maes parcio Duke Street, Aberdâr CF44 7ED
- (5) Pont Tramffordd Robertstown
  Trecynon CF44 8NH
- (6) Capel Hen Dŷ Cwrdd
  Trecynon CF44 8NT
- (7) Gwaith Haearn Hirwaun
  Tudor Avenue, Hirwaun CF44 9TY

# TAITH 2 – DISGRIFIAD O'R DAITH

Teithiwch i gyfeiriad y gogledd ar yr A470 heibio i Bontypridd hyd at arwydd y B4275 i Abercynon. Dilynwch y ffordd ymadael i'r gylchfan a throwch i'r dde tuag at Abercynon. Ewch i fyny'r rhiw a syth ymlaen wrth y goleuadau traffig. Mae Navigation House (sy'n dafarn erbyn hyn) yn sefyll ar y dde. Dyma oedd pencadlys Cwmni Camlas Morgannwg ac mae'n sefyll ar gyffordd camlas Aberdâr a chamlas Morgannwg. Ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, roedd y gyffordd yma'n bwysig i drafnidiaeth yr ardal – roedd hi'n bosibl i haearn a glo gael eu cludo i ddociau Caerdydd. Sylwch ar y Plac Glas wrth fynedfa'r dafarn, a'r flwyddyn 1792 sy'n nodi pryd cafodd yr adeilad ei godi.

Dyma hefyd oedd terfynfa'r daith ager gyntaf erioed (gweler y gofeb y tu allan i'r orsaf dân). Ym mis Chwefror 1804, llwyddodd Richard Trevithick, a oedd yn beiriannydd yng Ngwaith Haearn Penydarren ym Merthyr Tudful, i yrru'i injan ager a wagenni ar hyd cledrau rhwng Penydarren a'r gamlas, yma yn Abercynon. Cymerodd 4 awr a 5 munud i gyflawni'r daith 9 milltir o hyd – ac roedd hynny 20 mlynedd cyn i 'Roced' Stevenson gyflawni camp debyg yn Lloegr.

Yn ddiweddarach, roedd y rheilffyrdd yn gyfrifol am ddod ag oes y camlesi i ben. Roedd hi'n bosibl i'r rheilffyrdd gludo llwythi mwy o faint a theithio'n gyflymach.

Ewch yn ôl i'r goleuadau traffig ar ben y rhiw a throwch i'r chwith. Wrth gyrraedd set arall o oleuadau traffig trowch i'r chwith eto. Anwybyddwch dro'r A470 i'r chwith tuag at Gaerdydd, a dilynwch y ffordd hyd at y gylchfan. Wrth gyrraedd y gylchfan, trowch i'r chwith tuag at gylchfan fawr yr A470.

Wrth gyrraedd y gylchfan, ewch syth ymlaen ar hyd yr A4059 tuag at Aberdâr. Mae croeso i chi ymweld ag Aberpennar.



Richard Trevithick

A hithau'n sefyll hanner ffordd i fyny'r cwm, mae tref Aberpennar yn enwog am gynnal rasys Nos Galan bob blwyddyn. Mae'r rasys yn cael eu cynnal yn strydoedd y dref er mwyn dathlu gyrfa'r rhedwr o fri, Guto Nyth Brân. Mae e wedi'i gladdu dair milltir i ffwrdd ym mynwent Llanwynno ar y mynydd uwchben y dref (gweler Taith 4). Mae cerflun ohono'n sefyll yn Oxford Street yn Aberpennar (mae'n bosibl parcio gyferbyn â'r orsaf).

Ewch yn ôl i'r A4059 a throwch i'r chwith tuag at Aberdâr. Ewch syth ymlaen wrth gyrraedd y gylchfan gyntaf a heibio i'r ysbyty newydd ar y chwith, hyd at gylchfan arall.

Wrth gyrraedd y gylchfan mae'n bosibl i chi naill ai ymweld â safle'r lofa ddofn gyntaf yng Nghwm Cynon ac ymlaen i fan geni chwaraewr rygbi enwog ar hyd **Taith Ddewisol 1**, neu ymweld â chartref un o bencampwyr beicio'r byd ar hyd **Taith Ddewisol 2**.

.

# TAITH 2 – DISGRIFIAD O'R DAITH

## TAITH DDEWISOL 1
**Aber-nant y Groes a Dr Teddy Morgan**

Wrth gyrraedd y gylchfan, ewch syth ymlaen tuag at Aber-nant. Cymerwch yr ail dro ar y dde ac ewch i fyny'r rhiw. Dilynwch y ffordd o amgylch y tro i'r chwith a pharciwch wrth ymyl y ffens ar y chwith er mwyn cyrraedd safle Aber-nant y Groes. Dyma oedd safle'r lofa ddofn gyntaf yng Nghwm Cynon ym 1837. Ewch am dro i ddarllen y Plac Glas a'r hysbysfwrdd a gafodd eu gosod gan Gymdeithas Hanes Cwm Cynon. Sylwch hefyd ar hen ben y pwll lle daeth y glo i'r wyneb. Byddai'r ardal yma wedi edrych yn wahanol iawn ar y pryd. Byddai'r glo yn cael ei gludo ar hyd tramffordd i lawr i'r gamlas, ymlaen i Abercynon a dociau Caerdydd, a'i allforio i bedwar ban byd!

Gyrrwch i lawr y rhiw hyd at y brif ffordd. Wrth gyrraedd y gyffordd, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd hyd at y gylchfan. Wrth gyrraedd y gylchfan, trowch i'r dde tuag at Aber-nant ac ewch i fyny'r rhiw am tua 1km (1/2 milltir), yna trowch i'r dde i mewn i Heol y Parc. Parciwch ar y dde ar bwys plinth a phlac Dr Teddy Morgan.

Roedd Edward 'Teddy' Morgan yn asgellwr dros dîm rygbi Cymru. Mae'n cael ei gofio am sgorio'r cais buddugol yn erbyn Crysau Duon Seland Newydd ym 1905. Cafodd ei eni yn rhif 8 Agent's Row ym 1880, a'i fagu yn rhif 10. Daeth yn llawfeddyg yn ysbyty Guy's Hospital yn Llundain a chwarae dros Glwb Rygbi Cymry Llundain – sef clwb ar gyfer Cymry alltud sy'n gweithio yn Llundain.

Gyrrwch yn ôl i lawr y rhiw hyd at y gylchfan. Ewch syth ymlaen ac o dan bont y rheilffordd hyd at gylchfan arall. Cymerwch yr ail dro oddi ar y gylchfan tuag at Gaerdydd (A4059) ac Aberpennar, a gyrrwch hyd at gylchfan arall. Cymerwch y trydydd tro oddi ar y gylchfan yma tuag at Ganol y Dref (B4275), wedyn trowch i'r dde ar unwaith er mwyn cyrraedd maes parcio Duke Street (talu ac arddangos).



Dr Teddy Morgan

# TAITH 2 – DISGRIFIAD O'R DAITH

## TAITH DDEWISOL 2
**Arthur Linton**

Wrth gyrraedd y gylchfan, trowch i'r chwith tuag at Aberdâr (A4059) ac Ystad Ddiwydiannol Aberaman (B4275). Wrth gyrraedd y gylchfan nesaf, trowch i'r chwith tuag at Ystad Ddiwydiannol Aberaman (B4275). Gyrrwch hyd at y gyffordd â'r B4275 a throwch i'r dde tuag at Aberaman.

Dilynwch y ffordd am tua 1km, heibio i Eglwys Santes Margaret ar y chwith, hyd at y fferyllfa ar y dde (rhif 218 Cardiff Road). Parciwch ar y dde. Mae'n bosibl gweld Plac Glas Arthur Linton uwchben y fferyllfa, sy'n nodi cartref un o bencampwyr beicio'r byd. Mae hysbysfwrdd y tu allan i rif 219. Roedd Arthur Linton (1868 – 1896) yn arfer byw yma pan oedd yr adeilad yn dŷ.

Enillodd Arthur nifer o rasys, gan gynnwys ras rhwng Bordeaux a Paris ym 1896.

Yn anffodus, bu farw o dwymyn teiffoid rai wythnosau ar ôl y fuddugoliaeth enwog yma.

Roedd e'n 27 mlwydd oed.

Ewch yn ôl i'r car a dilynwch y ffordd ymlaen tuag at Aberdâr. Wrth gyrraedd y gylchfan fawr ymhen 1.5km, trowch i'r chwith tuag at Ganol y Dref (B4275), wedyn trowch i'r dde ar unwaith er mwyn cyrraedd maes parcio Duke Street.

Parciwch yma (talu ac arddangos) er mwyn dilyn Taith Gerdded Aberdâr.*



Arthur Linton

## ABERDÂR – YN GRYNO


Yn wahanol i nifer o drefi eraill sy'n sefyll mewn cymoedd cul gydag ochrau serth, mae tref Aberdâr wedi'i datblygu mewn cwm llydan – felly mae rhai wedi cyfeirio ati fel 'Brenhines y Cymoedd'.

Ymhlith safleoedd diddorol y dref mae Neuadd y Farchnad. Cafodd Eisteddfod Genedlaethol gyntaf Cymru ei chynnal yma ym 1861, a chafodd ffilmiau hir cyntaf y cynhyrchydd William Haggar eu dangos yma – fe oedd un o arloeswyr y diwydiant ffilmiau.

Mae Eglwys Sant Elfan yn enghraifft drawiadol o eglwysi Fictoraidd. Cafodd ei henwi ar ôl un o sylfaenwyr Cristnogaeth o'r ail ganrif ac mae uchder y tŵr yn mesur 180 o droedfeddi. Mae hefyd nifer o gapeli hanesyddol yn y dref. Mae cerflun 'Caradog' yn dathlu traddodiad canu corawl. Cafodd y Gofgolofn ei dylunio gan Syr Edwin Lutyens, ac mae'n edrych yn debyg i'r gofgolofn arall a gafodd ei dylunio ganddo yn Whitehall, Llundain.

Os hoffech chi gael gwybod rhagor am hanes yr ardal, mae croeso i chi ymweld ag Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon (dyma safle hen Waith Haearn y Gadlys ac mae'n rhan atodol o Daith Gerdded Aberdâr). Mae'r amgueddfa ryfeddol yma'n rhoi gwybod am stori'r ardal leol, ac mae caffi ardderchog yno hefyd.

Ar ôl gorffen eich taith gerdded, ewch yn ôl i'r car yn y maes parcio. Wrth adael y maes parcio, trowch i'r chwith ddwywaith er mwyn cyrraedd y gylchfan. Wrth gyrraedd y gylchfan, trowch i'r chwith tuag at Hirwaun (A4059). Dilynwch y ffordd yma gan groesi dwy gylchfan a heibio'r archfarchnad ar y chwith. Wrth gyrraedd y drydedd gylchfan, trowch i'r chwith (does dim arwydd ffordd) a pharciwch ar ochr dde'r rhiw. Dyma gyfle i ymweld â Phont Tramffordd Robertstown. Cerddwch i lawr y rhiw, trowch i'r chwith, a cherddwch ar hyd llwybr hyd at y Plac Glas a'r hysbysfwrdd. Mae'r rhain yn dathlu Pont Tramffordd Robertstown sy'n croesi Afon Cynon. Dyma un o'r pontydd cyntaf o'i math. Cafodd ei chodi er mwyn cludo glo rhwng Gwaith Haearn Hirwaun a Chamlas Aberdâr – roedd ceffylau'n arfer tynnu dramiau ar hyd y cledrau. Roedd y math yma o drafnidiaeth wedi helpu'r diwydiannau haearn a glo i ddatblygu.




Mae'r daith gerdded o amgylch canol Aberdâr yn galw heibio i nifer o safleoedd diddorol. Mae Taith Gerdded Aberdâr ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y wefan: www.heritagetrailsrct.co.uk ac mae'r llyfryn ar gael drwy ffonio 01443 490238 neu anfon neges e-bost i tourismenquiries@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Mae nifer o gaffis a thafarnau yn y dref sy'n gweini bwyd.

# TAITH 2 – DISGRIFIAD O'R DAITH

Cerddwch yn ôl i'r car a gyrrwch i fyny'r rhiw ar hyd Meirion Street. Trowch i'r dde i mewn i Bell Street, yna trowch i'r chwith i mewn i Alma Street. Mae Capel Hen Dŷ Cwrdd yn sefyll ar y dde. Dyma gapel hynaf yr Anghydffurfwyr yng Nghwm Cynon (sylwch ar y Plac Glas wrth y fynedfa). Yr unig addoldai a gafodd eu hadeiladu yn y plwyf hyd at 1811 oedd Capel Hen Dŷ Cwrdd ac Eglwys Ioan Fedyddiwr, sef eglwys hynafol y plwyf a gafodd ei sefydlu ym 1189 (mae'r eglwys yma i'w gweld ar Daith Gerdded Aberdâr).

Mae'n bosibl olrhain hanes yr Hen Dŷ Cwrdd yn ôl i 1751. Cafodd ei sefydlu ar y safle yma gan anghydffurfwyr Capel Cwm-y-glo ar fynydd Merthyr.

Teithiwch yn ôl i'r A4059 trwy droi i'r chwith ar ddiwedd Alma Street i mewn Mount Pleasant Street, wedyn trowch i'r chwith eto i mewn i Meirion Street ac i lawr y rhiw tuag at gylchfan yr A4059 ar bwys Pont Tramffordd Robertstown. Wrth gyrraedd y gylchfan, trowch i'r chwith tuag at Hirwaun (A4059), gan groesi dwy gylchfan cyn cyrraedd cylchfan fawr yr A465. Cymerwch yr ail dro oddi ar y gylchfan i gyrraedd pentref Hirwaun. Dilynwch y ffordd am tua 1km hyd at dro yn y ffordd. Trowch i'r dde i mewn i High Street. Gyrrwch heibio cloc diddorol y gofeb ryfel a chwiliwch am y maes parcio y tu ôl i'r llyfrgell ar y chwith. Parciwch yn y maes parcio yma.



Capel Hen Dŷ Cwrdd

Roedd Hirwaun yn safle gwaith haearn ers diwedd y 18fed ganrif, ac mae Plac Glas ar Dŷ Mawr, sy'n nodi cartref y rheolwr. Mae'r safle yma'n guddiedig, felly mae eisiau cymryd amser i ddod o hyd iddo. Defnyddiwch y llyfrgell fel man dechrau (mae gwybodaeth ar gael yno ynglŷn â'r gwaith haearn). O faes parcio'r llyfrgell, dilynwch y ffordd o flaen y capel gwyn hyd at y gyffordd. Trowch i'r dde i mewn i Station Road. Trowch i'r chwith i mewn i Penyard Road, ac i'r chwith eto i mewn i Tudor Avenue. Gyrrwch hyd at ddiwedd Tudor Avenue a pharciwch yn ofalus wrth i'r ffordd droi i'r dde. Chwiliwch am y ffordd ar waelod y llethr a dewch o hyd i'r llwybr sy'n arwain i lawr iddi. Mae'n troi i'r dde tuag at dir Tŷ Mawr, ac mae Plac Glas i'w weld ar y wal sy'n nodi cartref y rheolwr.

**(Dyma eiddo preifat. Gofynnwn i chi barchu preifatrwydd y preswylwyr. Peidiwch â cherdded y tu hwnt i'r Plac Glas.)**



# TAITH 2 – DISGRIFIAD O'R DAITH

Mae'r llwybr byr i lawr y rhiw o fynedfa Tŷ Mawr yn arwain i gae garw. Byddai'r cae wedi edrych yn hollol wahanol ar y pryd. Roedd y llethr ar lan Afon Cynon yn llawn bwrlwm gyda ffwrneisi, simneiau ac adeiladau'r gwaith haearn. Mae olion y gwaith haearn i'w gweld yn y perthi ar waelod y wal uchel, sydd â thai Tudor Avenue ar ei phen erbyn hyn. Roedd y dramffordd yn cysylltu'r gwaith haearn yma â Chamlas Aberdâr. Roedd y dramffordd yn croesi'r bont a oedd i'w gweld yn Robertstown yn gynharach ar hyd y daith yma. Dyma oedd un o'r safleoedd a oedd yn eiddo i deulu Crawshay - roedd gwaith haearn mawr gan y teulu ym Merthyr Tudful. Mae 'castell' Fictoraidd mawreddog y teulu i'w weld ym Mharc Cyfarthfa ym Merthyr Tudful.

Dyma ddiwedd y daith. Ewch yn ôl i bentref Hirwaun.

Mae croeso i chi naill ai teithio i gyfeiriad y gogledd tuag at Benderyn ac ymweld â distyllfa Wisgi Cymreig (mae'r oriau agor i'w gweld ar www.penderyn-distillery.co.uk) a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, neu yn ôl i lawr Cwm Cynon, neu dilynwch Ffordd Mynydd y Rhigos i Gwm Rhondda, neu briffordd yr A465 i gyrchfannau eraill.